

# Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant



Gawsoch chi eich geni rhwng  
1 Medi 2002 a 2 Ion 2011?

Yna efallai y bydd gennych CHI arian  
mewn Cronfa Ymddiriedolaeth Plant



## Pryd ydw i'n ei gael?

**Pan fyddwch chi'n 16 mlwydd oed** gallwch gymryd cyfrifoldeb am y cyfrif, penderfynu sut i'w fuddsoddi, neu ychwanegu ato.

**Pan fyddwch chi'n 18 mlwydd oed** gallwch gael yr arian. Gallwch chi ei wario neu ei gynilo.

## Sut ydw i'n ei gael?

Os byddwch chi'n gofyn i'ch rhiant neu ofalwr, dylai fod ganddyn nhw gyfriflenni banc neu lythyrau gyda'r holl wybodaeth rydych chi ei hangen.

Os nad ydyn nhw'n gwybod, ewch i: [findctf.sharefound.org](http://findctf.sharefound.org)  
Llenwch y ffurflen a byddant yn dod o hyd i'ch cyfrif i chi... ac mae'n rhad ac am ddim! Byddwch chi angen eich Rhif Yswiriant Gwladol, ond os nad ydych chi'n ei wybod... Gall Meic helpu gyda hynny hefyd!

## Un peth olaf...

Mae'r arian hwn ar eich cyfer chi. Os bydd rhywun yn ceisio rheoli sut rydych chi'n ei wario, neu'n ceisio ei dynnu oddi arnoch chi, cysylltwch â Meic neu siaradwch â rhywun rydych chi'n ymddiried ynddo/ynddi.

Ewch i  
gael eich  
arian



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Gallwch ddysgu mwy am Gronfeydd  
Ymddiriedolaeth Plant a chael eich  
arian yn: [meiccymru.org](http://meiccymru.org)

- 080880 23456
- neges testun ar 84001
- neges ar unwaith

Dysgu mwy  
yma:

